# MSc Cwnsela Genetig a Genomig
# Meini Prawf Derbyn a'r Broses Ymgeisio

## Cynnwys


Trosolwg ........ 2
Y cam cyflwyno cais ........ 2
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais ........ 2
Meini Prawf Derbyn (Hanfodol) ........ 2
Gradd ........ 2
Gwybodaeth ........ 2
Profiad ........ 2
Saesneg Iaith ........ 2
Meini Prawf Derbyn (Dewisol) ........ 3
Sgiliau Cwnsela ........ 3
Astudiaethau Pellach ........ 3
Datganiad Personol ........ 3
Geirdaon ........ 3
Geirda Academydd ........ 3
Geirda(on) Gofalu ........ 4
Cam Cyfweld ........ 4
Ar ôl Cyfweliad/Cam Cynnig ........ 5
Sefydliad y Lleoliad ........ 5
Lleoliadau DU/Gweriniaeth Iwerddon (ROI) ........ 5
Lleoliadau nad ydynt o'r DU/Gweriniaeth Iwerddon ........ 5
Cysylltu ........ 5





Addaswyd ddiwethaf: 06/07/2020
Addaswyd gan: KR

# Trosolwg

Mae MSc Cwnsela Genetig a Genomig Prifysgol Caerdydd yn rhaglen hynod gystadleuol. Oherwydd hyn mae gennym set gaeth o feini prawf derbyn a phroses i ddewis ymgeiswyr sy'n addas i gael cynnig lle ar y rhaglen.

Mae'r broses dderbyn wedi'i rhannu'n dri cham:

1. Y cam cyflwyno cais
2. Cam Cyfweld
3. Ar ôl Cyfweliad/Cam Cynnig

# Y cam cyflwyno cais

## Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais

I gael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r holl dystiolaeth a restrir yn yr adran meini prawf derbyn isod gyda'u cais ar-lein erbyn **31 Mawrth**. Gellir ymestyn y dyddiad hwn a bydd yn cael ei adlewyrchu ar dudalen y rhaglen ac mewn gohebiaeth drwy ebost at yr holl ymgeiswyr presennol.

Mae'n annhebygol y bydd pob cais a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried oherwydd y broses gyfweld sy'n digwydd yn dilyn y dyddiad cau. Unwaith y bydd yr Ysgol a'r Coleg wedi cytuno bod gan y rhaglen ddigon o geisiadau, bydd yr holl geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu tynnu'n ôl ac yna bydd y rhaglen yn cael ei chau yn swyddogol i geisiadau newydd.

## Meini Prawf Derbyn (Hanfodol)

Yn ogystal â bodloni gofynion Gofynion Mynediad Cyffredinol Prifysgol Caerdydd, rhaid i chi fodloni holl ofynion y rhaglen isod a darparu tystiolaeth ar eu cyfer:

### Gradd

Cymhwyster addysg uwch, o leiaf BSc (Anrh) gradd 2:1 mewn gwyddor fiolegol neu (bio)feddygol.
Derbynnir graddau cyfwerth yn y gwyddorau hefyd e.e. gwyddorau cymdeithasol, nyrsio, seicoleg [1].
Lanlwythwch dystysgrifau a thrawsgrifiadau o'ch holl gymwysterau perthnasol i'ch cais ar-lein [2].

### Gwybodaeth

Dangos gwybodaeth, cymhelliant ac ymrwymiad i yrfa ym maes cwnsela genetig a genomig h.y. gwybodaeth/profiad o eneteg a genomig mewn gofal iechyd.
Dylid dangos tystiolaeth o hyn yn eich datganiad personol a bydd yn cael ei asesu yn y cyfweliad.

### Profiad

Mae angen chwe mis neu fwy o brofiad cyfwerth ag amser llawn (tua 800 awr) o ofalu nad yw'n gofalu am deulu e.e. gwaith gofal iechyd, gwirfoddoli gyda gwasanaeth cwnsela, mewn clinig cwnsela genetig neu genomig, neu gefnogi plentyn neu oedolyn bregus (e.e. gydag anabledd).
Dylai hyn gael ei ddangos gan eirdaon ac yn eich datganiad personol.

### Saesneg Iaith

IELTS (Academaidd) - Sgôr gyffredinol o 7.0 gydag o leiaf 6.5 ym mhob is-sgil.
Neu gymhwyster Saesneg iaith cyfwerth a dderbynnir gan Brifysgol Caerdydd [3].

---

[1] Cysylltwch â ni am arweiniad pellach os nad oes gennych y radd israddedig ofynnol.

[2] Os ydych yn aros am ddyfarniad eich gradd a bod disgwyl iddo gael ei ddyfarnu cyn dyddiad dechrau'r rhaglen hon ond ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais, bydd angen copi o drawsgrifiad o'ch rhaglen bresennol arnom i asesu'r lefel rydych yn gweithio arni. Rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth arall erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais.

[3] Ni fydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth Saesneg Iaith os ydych yn bodloni un o'r meini prawf ar ein tudalen gwybodaeth Saesneg Iaith.

## Meini Prawf Derbyn (Dewisol)

Bydd tystiolaeth o'r adrannau isod yn cryfhau cais ond nid ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflwyno cais i'r rhaglen hon.

### Sgiliau Cwnsela

Tystiolaeth o hyfforddiant cwnsela a/neu hyfforddiant sgiliau cwnsela ar ffurf geirda ychwanegol (neu wedi'i gynnwys yn eich geirda gofalu) neu dystysgrifau ac fel rhan o'ch datganiad personol.

### Astudiaethau Pellach

Croesewir astudiaeth bellach mewn meysydd perthnasol (e.e. PgDip, MSc neu PhD).
Rhowch fanylion eich astudiaethau pellach a lanlwythwch yr holl dystysgrifau fel rhan o'ch cais ar-lein.

## Datganiad Personol

Dylai eich datganiad personol roi wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais am fynediad i ddweud wrthym rydych chi am ddilyn y rhaglen hon, pa fuddion rydych chi'n disgwyl eu hennill ohoni a pha sgiliau a phrofiadau sydd gennych chi sy'n eich gwneud chi'n ymgeisydd addas.

**Rhaid i chi ddefnyddio'r cwestiynau isod fel penawdau yn eich dogfen:**

1. Beth sy'n eich cymell i wneud cais am y rhaglen hon?
2. Pa rinweddau a phriodoleddau personol sydd gennych a fyddai'n gwella eich gallu i weithio fel cwnselydd genetig?
3. Disgrifiwch unrhyw brofiad a gawsoch yn gweithio gydag unigolion a allai gael eu hystyried yn agored i niwed.
4. Os ydych wedi gwneud cais am y rhaglen hon o'r blaen ac wedi bod yn aflwyddiannus, disgrifiwch pa brofiad pellach rydych wedi'i ennill a allai gryfhau eich cais.

Rhowch eich datganiad fel dogfen Word neu PDF. Nid oes terfyn geiriau, ond dylech anelu at uchafswm o 2 ochr A4 fel canllaw.

## Geirdaon

Mae'n ofynnol i chi ddarparu o leiaf dau eirda fel rhan o'ch cais.
Un geirda academaidd ac un neu fwy yn dangos o leiaf 6 mis o brofiad gofalu heb fod yn deulu cyfwerth ag amser llawn.
Rhaid i'r geirda roi digon o wybodaeth i alluogi'r Ysgol i wirio'r geirda.

### Geirda Academydd

Rhaid i eirdaon academaidd:

- gael eu cyflwyno ar bennawd llythyr cwmni neu ar ffurflen canolwr Prifysgol Caerdydd a'u llofnodi a'u dyddio gan ganolwr a enwir
- cynnwys manylion cyswllt busnes y canolwr
- rhoi manylion am swydd y canolwr yn y brifysgol (rhaid iddo fod yn ddarlithydd neu'n oruchwyliwr)
- rhoi manylion am wybodaeth y canolwr am yr ymgeisydd, gan gynnwys yr amser mae wedi ei adnabod, a sut mae'n ei adnabod
- rhoi manylion am rôl yr ymgeisydd gyda'r brifysgol
- pennu hyd cofrestriad yr ymgeisydd gyda'r brifysgol (gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen yr ymgeisydd)
- rhoi manylion am bynciau, lefel perfformiad a chanlyniad (neu ganlyniad disgwyliedig) rhaglen astudio'r ymgeisydd
- rhoi manylion am gymhelliant yr ymgeisydd a'i allu deallusol ar gyfer y rhaglen astudio o'i ddewis
- rhoi manylion am allu'r ymgeisydd mewn perthynas â myfyrwyr eraill yn yr un flwyddyn
- rhoi manylion am botensial yr ymgeisydd ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig
- cael eu cyflwyno'n electronig - dylid darparu llythyrau cyfeirio mewn fformat PDF neu jpeg na ellir eu golygu



Addaswyd ddiwethaf: 06/07/2020
Addaswyd gan: KR

### Geirda(on) Gofalu

Gall profiad gofalu fod yn waith cyflogedig neu'n wirfoddol a rhaid iddo fod am o leiaf 6 mis cyfwerth ag amser llawn (tua 800 awr).
Gall hyn fod mewn un neu sawl swydd [4].
Yr agwedd allweddol ar yr hyn sy'n golygu "profiad gofalu" fydd a allwch chi fyfyrio'n briodol ar beth rydych chi wedi'i ddysgu am effaith seicogymdeithasol clefyd ac anabledd, a fydd yn rhywbeth y byddwn ni hefyd yn ei ddisgwyl yn y cam cyfweld.
Rhaid i eirdaon gofalu:

- gael eu cyflwyno ar bennawd llythyr cwmni neu ar ffurflen canolwr Prifysgol Caerdydd a'u llofnodi a'u dyddio gan ganolwr a enwir
- cynnwys manylion cyswllt busnes y canolwr
- rhoi manylion am swydd y canolwr yn y sefydliad (rhaid iddo fod yn oruchwyliwr/rheolwr llinell)
- rhoi manylion am wybodaeth y canolwr am yr ymgeisydd, gan gynnwys yr amser mae wedi ei adnabod, a sut mae'n ei adnabod
- rhoi manylion am rôl yr ymgeisydd gyda'r sefydliad
- pennu hyd cyflogaeth neu wirfoddoli'r ymgeisydd gyda'r sefydliad (nifer y diwrnodau, amser llawn neu ran-amser [oriau'r wythnos], gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen yr ymgeisydd)
- rhoi manylion am gymhelliant yr ymgeisydd a'i allu deallusol ar gyfer y rhaglen astudio o'i ddewis
- cael eu cyflwyno'n electronig - dylid darparu llythyrau cyfeirio mewn fformat PDF neu jpeg na ellir eu golygu

## Cam Cyfweld

Mae gan y rhaglen hon broses gyfweld sy'n gysylltiedig â hi.

Mae cyfweliadau fel arfer yn cael eu cynnal ar ddiwedd mis Ebrill/dechrau mis Mai.
Mae'r dyddiadau ar gyfer y rhain yn cael eu cadarnhau i bob ymgeisydd yn nes at yr amser unwaith y byddant wedi'u cadarnhau.

Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais, bydd pob cais cymwys yn cael ei sgorio yn ôl meini prawf penodol. Bydd yr ymgeiswyr sydd â'r sgôr uchaf ar hyn o bryd yn cael eu gwahodd am gyfweliad wyneb yn wyneb neu ar-lein [5]. Bydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r sgôr a argymhellir [6] yn cael eu gwrthod.

Bydd y cyfweliad yn cynnwys fformat cwestiynau safonol, cyflwyniad pum munud ar bwnc nad yw'n gysylltiedig â geneteg neu gwnsela genetig, a thasg myfyriol ysgrifenedig. Disgwylir i ymgeiswyr ddangos y canlynol yn y cyfweliad:

- Gwybodaeth am gwnsela genetig a genomig
- Sgiliau myfyriol a hunanymwybyddiaeth
- Y gallu i fyfyrio ar effaith seicogymdeithasol clefyd ac anabledd
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o eneteg ddynol
- Cynlluniau/dewisiadau lleoliad blwyddyn 2

Darperir mwy o wybodaeth am y cam cyfweld i ymgeiswyr adeg eu dewis.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu rhestru ar sail eu sgoriau cyfunol o'r cais a gyflwyniad a'r cyfweliad, a bydd y gwaith o ddyfarnu lleoliadau yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon yn cael ei wneud yn ôl y safle hwn.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus naill ai'n cael eu gwrthod, os yw'n briodol, neu'n cael eu rhoi ar restr aros rhag ofn y bydd lle ar gael.

---

[4] Os ydych yn defnyddio sawl swydd yna rhaid cyflwyno geirda ar gyfer pob un.

[5] Ar gyfer cyfweliadau ar-lein, rhaid i chi gael mynediad at we-gamera (neu debyg) a meicroffon er mwyn cymryd rhan a rhaid darparu ID llun ar ffurf pasbort ymlaen llaw ar eich cais.

[6] Nid ydym yn rhyddhau manylion sgoriau a argymhellir pob blwyddyn gan eu bod yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn.

## Ar ôl Cyfweliad/Cam Cynnig

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad byddwch yn cael cynnig eich rhoi ar y rhaglen yn anffurfiol drwy ebost. Yna bydd gofyn i chi gysylltu â'n hacademyddion ynglŷn â threfnu'r lleoliad blwyddyn 2 cyn i gynnig swyddogol gael ei anfon trwy ein system ymgeisio ar-lein ar SIMS. Mae hyn oherwydd bod cael cytundeb lleoliad wedi'i sefydlu ymlaen llaw yn rhagofyniad ar gyfer dechrau'r rhaglen.

Unwaith y bydd y lleoliad wedi'i drefnu neu pan fydd cytundeb yn ei le, bydd llythyr cynnig swyddogol yn cael ei anfon atoch yn ffurfiol drwy SIMS.

### Sefydliad y Lleoliad

O ran cais, nid yw'n ofynnol i chi gael manylion y lleoliad yn yr adrannau isod wedi'u didoli cyn derbyn cynnig er y cynghorir cael rhai cynlluniau o ble yr hoffech wneud eich lleoliad a byddwch yn cael eich holi ar hyn yn y cyfweliad.

#### Lleoliadau DU/Gweriniaeth Iwerddon (ROI)

Ar gyfer lleoliadau yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon gofynnir i chi ddewis lleoliadau ac yna caiff y lleoliadau eu trefnu a'u dyrannu gan diwtoriaid y rhaglen. Byddant yn cael eu dyrannu'n ffafriol yn ôl y safleoedd ar ôl y cyfweliad.

**Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno cwblhau eu lleoliadau yn y DU neu yng Ngweriniaeth Iwerddon beidio â chysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau geneteg glinigol yn y gwledydd hyn.**

Ni all ymgeiswyr o'r tu allan i'r DU neu'r UE gwblhau lleoliadau yn y DU oherwydd cyfyngiadau fisa [7].

#### Lleoliadau nad ydynt o'r DU/Gweriniaeth Iwerddon

Ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r DU/Gweriniaeth Iwerddon, mae'r rhain i'w trefnu gan y myfyriwr a dylid cadarnhau'r cynlluniau hyn gyda thiwtoriaid y rhaglen ar y cam hwn o'r broses.

## Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ar unrhyw adeg yn ystod y broses dderbyn, cysylltwch â Thîm Derbyn Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir yr Ysgol Meddygaeth.

Ebost: PGTMedAdmissions@caerdydd.ac.uk

Ffôn: +44 (0)29206 87214

[7] Rydym yn argymell i ymgeiswyr o'r UE gwblhau eu lleoliad blwyddyn 2 yn eu gwlad eu hunain gan ei bod yn broses haws i'w threfnu a hefyd yn darparu cysylltiadau gwell i'r myfyrwyr yn y dyfodol yn eu gwasanaeth Cwnsela Genetig mwy lleol.



Addaswyd ddiwethaf: 06/07/2020
Addaswyd gan: KR